Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

# CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL
## Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd
## Dydd Iau 21ain Tachwedd, 2019 - 18:00,
## Y Neuadd Fawr.

## Agenda


| | | | |
|---|---|---|---|
| | 1. | Croeso | |
| Gorffennol | 2. | Cofnodion CCB 2018 | (T2) |
| | 3. | Adroddiad Blynyddol 18/19 | (T8) |
| | 4. | Adroddiad Ariannol 18/19 | (T9) |
| Presennol | 5. | Ymlyniadau | (T13) |
| | 6. | Cwestiynau agored i'r Ymddiriedolwyr | |
| Dyfodol | 7. | Eitemau a gyflwynwyd gan Undeb y Myfyrwyr | |
| | | i) Adolygiad o Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu | (T14) |
| | | ii) Adolygiad Swyddogion Sabothol | (T19) |
| | 8. | Cynigion i'w trafod | |
| | | A) Polisïau yn darfod | (T21) |
| | | B) Cynigion a gyflwynwyd | |
| | | i) Gwneud Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn Gyflogwr Cyflog Byw | (T22) |
| | | ii) Ymrwymiad i fynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol yng Nghaerdydd | (T24) |
| | | iii) Gweithredu Diwydiannol UCU | (T26) |
| | | iv) Polisi Amgylcheddol Radical | (T29) |
| | | v) Mabwysiadu safiad swyddogol o blaid dewis (*pro-choice*) | (T31) |
| | 9. | Hysbysiad Etholiadau | |
| | 10. | Unrhyw Fater Arall | |

Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

# EITEM DAU

**CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL 2018**
**Cofnodion**
**Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd**
**Dydd Iau 22ain Tachwedd 2018, 18:00**
**Y Neuadd Fawr.**

| | |
|---|---|
| 1. | **Croeso**<br><br>Croesawodd Nick Fox (Cadeirydd) bawb i'r cyfarfod. |
| 2. | **Cofnodion o CCB 2017**<br><br>Cadarnhawyd a chymeradwywyd cofnodion CCB 2017 fel cofnod cywir.<br><br>*Cymeradwywyd y cofnodion.* |
| 3. | **Adroddiad Blynyddol 17/18**<br><br>Cyflwynodd Fadhila Al Dhahouri (Llywydd yr Undeb) Adroddiad Blynyddol Undeb y Myfyrwyr 17/18 ac esboniodd y gellir gweld yr uchafbwyntiau yma. |
| 4. | **Adroddiad Ariannol 17/18**<br><br>Cyflwynodd Daniel Palmer Adroddiad Ariannol 17/18 ac archwilio datganiadau ariannol y grŵp a'r Undeb. Gellir dod o hyd i fwy o fanylion yma. |
| 5. | **Ymlyniadau**<br><br>Esboniodd NF mae ymlyniadau'r Undeb yw:<br><br>Ffi Ymlyniad UCM - £39,476<br>Ffi Ymlyniad BUCS - £16,368<br><br>*Cymeradwywyd yr ymlyniadau.* |
| 6. | **Cwestiynau agored i'r Ymddiriedolwyr**<br><br>Gofynnodd Nathan ynglŷn â'r arbedion ar gyfer y flwyddyn nesaf, gan nad yw'r grant bloc yn cael ei gynyddu.<br>Atebodd FAD mai nid y grant bloc yw'r unig incwm. Bydd arbedion yn cael eu cynyddu drwy incwm o'r gwasanaethau masnachol neu wneud arbedion ar wasanaethau eraill. Nid oes modd rhagweld yr union niferoedd gan nad ydym yn clywed am y grant bloc hyd nes mis Mawrth. |

| | |
|---|---|
| | Gofynnodd Sam am sut i gynyddu nifer y pleidleiswyr yn yr etholiadau i ddod.<br>Atebodd Henri Page y cafodd niferoedd eleni eu heffeithio gan streiciau Prifysgol. Fe dorrwyd record nifer pleidleiswyr yr Hydref ar gyfer etholwyr ac enwebwyr. Yn chwilio i gynyddu ymgysylltiad drwy ychwanegu pleidleisio tuag at strwythur haen ar gyfer chwaraeon a chymdeithasau, rhaglen ar-lein i gadw trac ar niferoedd pleidleiswyr ac yn gweithio tuag at bleidlais electroneg. Croesawyd awgrymiadau i dîm Llais y Myfyrwyr.<br><br>Gofynnodd Del beth gellid ei wneud i gydnabod llwyddiannau cymdeithasau academaidd<br>Atebodd HP eu bod yn gweithio gyda IL Addysg ar system cynrychiolwyr academaidd i ddeall beth sydd angen ar gymdeithasau sy'n seiliedig ar gwrs. Gall gwobrau academaidd fynd ar drawsgrifiad neu gael eu hargraffu drws nesaf i'r tystysgrif gradd.<br><br>Gofynnodd David am beth ellir ei wneud am ormodedd niferoedd yn yr Undeb<br>Atebodd FAD bod Y Stiwdio wedi cael ei agor i ddarparu mwy o ofod ac eu bod yn gobeithio ailddatblygu'r Neuadd Fawr. Nodwyd y bydd Canolfan Bywyd y Myfyrwyr yn newid y system ciwio a threfniadau stiwardio. Gofynnwyd am sylwadau i gael eu anfon tuag at dîm y Lleoliadau.<br><br>Gofynnodd myfyriwr beth oedd pwrpas y strwythur haen.<br>Esboniodd HP nad yw'r strwythur haen wedi cael ei ddylunio i gyfyngu myfyrwyr, ei fwriad yw i ddarparu rhestr o awgrymiadau ar sut i ddatblygu'r gymdeithas. Dylid deall faint sydd wedi cael ei lwyddo ac gall gael ei wisgo yn falch fel 'bathodyn'. Ffyrdd eraill yn cynnwys Dawns y Cymdeithasau a thystysgrifau ayyb.<br><br>Gofynnwyd i fyfyrwyr beth fydd yr Undeb yn ei wneud am oleuadau strôb yn y clwb, gan ei fod yn effeithio pobl sydd yn sensitif i fflach lluniau.<br>Atebodd Amr Alwishah ei fod yn bwysig i ddadlau dros bob myfyriwr ac eisiau adborth gan fyfyrwyr. Yn gweithio gyda Lleoliadau i ddatblygu ystafelloedd heb strôb a nosweithiau clwb hygyrch. Gofynnwyd am awgrymiadau.<br><br>Gofynnodd Ben os yw'r ymddiriedolwyr yn deall cyfreithiau a buddsoddiadau elusennol.<br>Atebodd FAD eu bod yn derbyn hyfforddiant dwys ym mis Gorffennaf i ddeall cyfreithiau a llywodraethu.<br><br>Gofynnodd Leah ynglŷn â'r problemau yn cyrchu Ffair y Cymdeithasau a sut bydd yr Undeb yn ymateb i gwynion.<br>Atebodd HP eu bod wedi ceisio defnyddio adborth o'r flwyddyn blaenorol i wella diogelwch ond yn ddiolchgar o gael derbyn adborth eleni i wella eto ar gyfer y flwyddyn nesaf.<br><br>Gofynnodd George am sut mae'r Undeb yn bwriadu gwella Cefnogaeth Myfyrwyr yn y Brifysgol.<br>Atebodd AA os oes gennych chi argyfwng, bydd Cefnogaeth Myfyrwyr yn eich gweld chi yn syth bin ac os ydych chi'n gofyn i gael eich gweld, byddwch yn cael eich gweld. Mae sesiynau galw heibio hefyd ar gael yng Nghyngor i Fyfyrwyr yng Nghathays a'r Mynydd Bychan a cynhelir ymgyrchoedd. |
| 7. | **Eitemau a gyflwynwyd gan Undeb y Myfyrwyr** |
| i. | **Adolygiad o Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu**<br><br>Mae eitem wedi cael ei ddisodli oddi ar yr agenda. |

| | |
|---|---|
| **8.** | **Cynigion i'w trafod** |
| **A.** | **Polisïau yn darfod** |
| **i.** | **Hyfforddiant Iechyd Meddwl gorfodol i diwtoriaid personol**<br><br>Esboniodd NF bod y polisi hwn yn darfod.<br><br>*Pasiwyd y polisi a oedd yn darfod.* |
| **B.** | **Cynigion a gyflwynwyd** |
| **i)** | **Brwydro am gronfeydd: Parhau i gyllido mentrau sy'n mynd i'r afael â ymosodiadau rhywiol a thrais ar fyfyrwyr.**<br><br>Cynigydd: Katey Beggan<br>Eiliwyd gan: Georgie Haynes a Fadhila Al Dhahouri<br><br>Siaradodd KB dros y cynnig ac esboniodd fod hyn yn bwnc hynod bellgyrhaeddol a chynhyrfiol. Nodwyd bod ymosodiadau rhywiol yn cael effaith sylweddol ar ddioddefwyr ac mae angen derbyn a gweithredu ar y broblem. Esboniodd KB bod y prosiect yn gofyn am fwy o gyllid tymor hir ac y bydd y cynnig hwn yn rhoi gwybod i'r Brifysgol am pa mor bwysig yw'r pwnc ac yn awgrymu y dylent fuddsoddi mwy yn yr achos a chryfhau diogelu polisïau a gweithdrefnau.<br><br>Dim siaradwr yn erbyn.<br><br>Dim cwestiynau.<br><br>*Cynnig yn pasio.* |
| **ii)** | **Ymgyrch Gwrth Slafdai**<br><br>Cynigydd: Harvey Langley<br>Eiliwyd gan: Hannah Redfearn<br><br>Siaradodd HL dros y cynnig ac esboniodd fod hwn yn fater mawr mewn cynhyrchu electronig. Mae Electronics Watch yn sefydliad sy'n cynnal gwaith ymchwil ac yn darparu gwybodaeth ar sut mae cwmnïau yn gweithredu a'r hawliau sydd gan eu gweithwyr. Nododd HL bod tanysgrifiad dim ond yn £5000 y flwyddyn ac y dylai Prifysgol Caerdydd fuddsoddi yn hyn fel cam i osgoi llafur slafdai.<br><br>Dim siaradwr yn erbyn.<br><br>Gofynnodd myfyriwr os oedd UMPC wedi cofrestru.<br>Atebodd HL nad yw'n credu eu bod nhw, fodd bynnag gall hyn fod yn rhywbeth i'w ystyried yn y dyfodol.<br><br>Gofynnodd myfyriwr os mai bwriad y cynnig yw cefnogi Electronics Watch neu wneud i'r Brifysgol gofrestru.<br>Atebodd HL y byddai'r cynnig hwn yn dweud wrth y Brifysgol bod corff y myfyrwyr yn credu y dylent gael |

| | |
|---|---|
| | ymlyniad at hyn ac fod hwn yn un rhan o'r broses.<br><br>Gofynnodd myfyriwr pe byddai'r cynnig am unrhyw galedwedd neu gyfrifiaduron yn unig.<br>Atebodd HL y byddai hyn ar gyfer cyfrifiaduron, nid unrhyw offer mwy arbenigol.<br><br>*Cynnig yn pasio.* |
| iii) | **Swyddog Y Gymraeg**<br><br>Cynigydd: Wiliam Rees<br>Eiliwyd gan: Jacob Morris<br><br>Siaradodd WR dros y cynnig ac esboniodd bod hwn yn fater pwysig, nid yn unig i'r gymuned Gymraeg ond i'r gymuned ehangach hefyd. Gan ymhelaethu bod y rôl yn cyfuno Llywydd UMPC a'r swyddog sabothol Iaith Gymraeg ac y bydd yn dilyn Bangor ac Aberystwyth mewn creu rôl, bydd Abertawe yn dilyn blwyddyn nesaf. Bydd y gost yn £40,000 y flwyddyn gyntaf ac yna y cyflog blynyddol bob blwyddyn wedi hynny. Mae WR yn credu bod yr Undeb mewn safle da i ariannu'r safle hwn ac y bydd yn denu mwy o fyfyrwyr a fydd yn talu mwy o ffioedd dysgu. Gan ddod i gasgliad y byddai'r Swyddog yn hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a diwylliant i bawb.<br><br>Dim siaradwr yn erbyn.<br><br>Gofynnodd Josie pe byddai'r rôl rhan amser yn diflannu.<br>Atebodd WR, bydd.<br><br>Gofynnodd Myfyriwr pe byddai yn anelu i fod ar gyfer yr etholiadau nesaf.<br>Atebodd WR bod cyfansoddiad Undeb y Myfyrwyr yn golygu ei fod yn annhebygol ar gyfer yr etholiadau nesaf ond os ddim bydd y rôl ar gyfer 2020.<br><br>*Pasiwyd y cynnig gyda mwyafrif 2/3.* |
| iv) | **Gwneud Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn Gyflogwr Cyflog Byw**<br><br>Cynigydd: Leo Holmes<br>Eiliwyd gan: Joshua Hurst<br><br>Siaradodd LH dros y cynnig ac esboniodd y dylai'r Undeb fod yn unol ag y Brifysgol, sy'n talu £1.20 yn fwy yr awr. Cafodd y cynnig ei wrthod llynedd ond mae hyn ar gyfer 2020-21, i roi digonedd o amser i'r Undeb i wneud arbedion. Bydd Cyngor Caerdydd yn darparu'r Undeb gyda chostau achrediad am 3 mlynedd.<br><br>Siaradodd HP dros y cynnig ac esbonio bod risgiau a phwyntiau negyddol posib. Yn dynodi bod yr Undeb yn talu o leiaf y cyflog byw i'r holl staff llawn amser yr Undeb. Gan ymhelaethu bod holl staff myfyrwyr yn derbyn yr isafswm cyflog i fyfyrwyr dros 25 oed er bod y mwyafrif ohonynt o dan 25 oed ac mae gan yr Undeb y lefelau uchaf o fodlonrwydd myfyrwyr ymysg staff myfyrwyr. Darparu'r farn y byddai'r newid hwn yn costio oddeutu £120,000 y flwyddyn i'r Undeb. Yn esbonio ymhellach y byddai hyn yn arwain at gau canolfannau a fyddai o ganlyniad yn lleihau y nifer o swyddi a gall arian |

| | |
|---|---|
| | ychwanegol ariannu gwasanaethau iechyd meddwl neu gefnogaeth arall ar gyfer myfyrwyr bregus.<br><br>Siaradodd FAD o blaid y cynnig ac esbonio y bydd yn rhoi mandad i ymchwilio i mewn i opsiynau o leiaf. Nododd FAD nad yw'r cynnig yn gofyn i hyn gael ei roi a waith y flwyddyn hon, ac y gellir gweithio arno mewn blynyddoedd i ddod. Yn ymhelaethu eu bod wedi siarad â'r Brifysgol a fyddai'n cefnogi'r gweithrediad.<br><br>Siaradodd Kathryn yn erbyn y cynnig ac esboniodd bod y cyflog yn uwch na'r mwyafrif o leoliadau yn y dref. Yn siarad ar ran staff myfyrwyr Lleoliadau eraill mynegodd y myfyriwr nad yw myfyrwyr eisiau lleihad mewn oriau o ganlyniad i newidiadau mewn cyllid. Mae bodlonrwydd staff yn uchel ac mae'r elw yn mynd tuag at wella profiad i 30,000 o fyfyrwyr. Mae'n golygu'r gorau ond y bydd yn cael sgil effeithiau negyddol.<br><br>Siaradodd Joshua dros y cynnig ac esboniodd bod cyllid yn arwain tuag at achosi problemau iechyd meddwl. Pan cynigir gwell cyflog cynyddir gweithgarwch ac mae'n annog mwy o geisiadau gwaith.<br><br>Siaradodd Orla yn erbyn y cynnig a cytunodd bod cyllid yn reswm dros iechyd meddwl ymysg myfyrwyr ond byddai'n well gwario'r arian ar wasanaethau iechyd meddwl. Mae gan 16 Undeb Myfyriwr eraill gyflog byw, ond mae ganddynt ar gyfartaledd 75 staff myfyrwyr, mae gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd dros 300.<br><br>Cyfrifodd LH y cynnig.<br><br>*Cynnig yn cwympo.* |
| v) | **Amddiffyn ein Myfyrwyr Palestina ac Iddewig**<br><br>Cynigydd: Amr Alwishah<br>Eiliwyd gan: Fadhila Al Dhahouri<br>Siaradodd AA dros y cynnig ac esboniodd bod y cynnig yn ymateb i ddyheadau myfyrwyr y mae AA wedi dod i gysylltiad â. Esboniodd AA ymhellach bod y cynnig hefyd yn ymateb i droseddau casineb ar y gymuned Iddewig yng Nghaerdydd a'r saethu ym Mhennsylvania. 34% o gynydd mewn ymatebion gwrth Semitiaeth yn y DU ac hefyd wedi digwydd ar y campws. Mae gennym ni yr hawl i fynnu lle caiff ffioedd dysgu eu buddsoddi ac mae hyn yn osgoi gwledydd unrhyw le yn byd sy'n cefnogi hawliau dynol gwael neu ryfeloedd. Dim eisiau unrhyw erlyniad yn erbyn myfyrwyr Palestina ar y campws.<br><br>*Cynigwyd diwygiad i'r cynnig - cynigydd y diwygiad ddim yn bresennol a ni ddymunai unrhyw un arall a oedd yn bresennol i siarad o blaid y diwygiad.*<br><br>Siaradodd FAD yn erbyn y diwygiad ac esbonio ei fod yn lleihau pa mor ddifrifol yw'r cynnig. Wedi siarad gydag aelodau o'r gymdeithas Iddewig ac eisiau gwneud yn siŵr y ceir cyfeiriad at lywodraeth Israeli presennol nid Israel yn unig. Gwneud yn siŵr bod y polisi wedi ei esbonio a gyda phwyntiau bwled. Wedi cael gwared o BDS i amddiffyn myfyrwyr a hefyd wedi ychwanegu'r gwahaniaeth rhwng Iddewiaeth a Seioniaeth. Mae'r diwygiadau yn tanseilio'r problemau.<br><br>*Cwympodd y diwygiad.* |

| | |
|---|---|
| | Siaradodd myfyriwr yn erbyn y cynnig gan esbonio eu bod yn teimlo bod y cynnig yn hynod o wallus. Ni chafodd y cynnig ei greu gyda myfyrwyr Iddewig gan fod y gymdeithas Iddewig dim ond wedi ei hysbysu yn ddiweddar. Os hoffech ddiffinio gwrth-Semitiaeth dylid gwneud hynny gan y rhai sydd o dan orthrwm. Dylai boicotiau gael eu trefnu mewn modd sydd yn sensitif i ddiwylliant a bydd y cynnig hwn yn gwneud i fyfyrwyr Israel deimlo fel nad ydynt yn cael eu croesawu ac yn blaenoriaethu gwleidyddiaeth rhyngwladol cyn diogelwch myfyrwyr.<br><br>Siaradodd dros y cynnig ac esbonio bod gwrthgyferbyniadau. Mae pobl Palestina yn byw mewn sawl crefydd fel un cenedl ac mae Llywodraeth Israel yn cyflawni trais rhyngwladol.<br><br>Siaradodd Joel yn erbyn y cynnig ac mynegodd ei siom. Credai Joel nad oedd y cynnig yn cyfeirio tuag at eithafiaeth crefyddol arall a credai ei fod wedi rhoi ofn i fyfyrwyr Iddewig a'r rheiny sy'n dod o Israel. Angen rhoi diogelwch a sicrwydd myfyrwyr Iddewig yn gyntaf.<br><br>Siaradodd y myfyriwr dros y cynnig gan esbonio na all Palestina siarad drostynt eu hunain ac nad oes ganddynt hawliau. Fe wnaethant gymhariaeth i pan geisiodd myfyrwyr wthio dros foicotio'r apartheid a gall dyfu pwysau rhyngwladol ar Israel i'w hatal rhag rhwystro Gaza. Mae cyllid y Brifysgol yn cael ei wario ar gwmnïau sy'n ariannu hyn yn uniongyrchol.<br><br>Siaradodd yn erbyn y cynnig a darparu'r weledigaeth ei fod yn sarhaus na ymgynghorwyd gyda myfyrwyr Iddewig hyd nes diwrnod yn ôl. Mae cynigion am Israel wedi cael eu cynnig mewn Seneddau yn y gorffennol ond dim am Myanmar ayyb. Ni allwn ffocysu ar wleidyddiaeth un gwlad ac angen ffocysu ar ddiogelwch a lles myfyrwyr.<br><br>Siaradodd Myfyriwr dros y cynnig ac esboniodd nad yw'r feirniadaeth o Lywodraeth Israel yn wrth-Semitiaeth, gan awgrymu agwedd mwy cyflawn wedi bod yn fwy addas, gan nad yw'r cynnig yn crybwyll LGBT+ ayyb.<br><br>Codwyd cynnig trefniadol i fynd i bleidlais.<br><br>*Cynnig trefniadol yn pasio.*<br><br>Cyfrifodd AA ar gyfer y cynnig.<br><br>*Cynnig yn cwympo (124 o blaid, 143 yn erbyn, 218 ymataliad)* |
| 9. | **Hysbysiad Etholiadau**<br><br>Esboniodd NF bod enwebiadau ar gyfer Etholiadau'r Gwanwyn yn agor Ddydd Gwener 23ain Tachwedd am 12:00. |
| 10. | **Unrhyw Fater Arall**<br><br>Doedd dim. |

# EITEM TRI

Bydd Llywydd Undeb y Myfyrwyr, Jackie Yip, yn cyflwyno'r prif negeseuon o'r adroddiad, datblygiadau arwyddocaol, llwyddiannau a newidiadau o fewn y sefydliadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2018-19.

# EITEM PEDWAR

## Adroddiad Ariannol

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol gyda'i gilydd gyda datganiadau cyllid archwiliedig y grŵp a'r Undeb ar gyfer y flwyddyn 1 Awst 2018 i 31 Gorffennaf 2019. Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau bod Adroddiad Blynyddol a datganiadau cyllidol yr Undeb yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol presennol, gofynion dogfen llywodraethol yr Undeb a darpariaethau'r Datganiad o Ymarfer a Awgrymwyd (SORP), yn berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol a'r Safon Adrodd Ariannol yn ddilys yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (mewn grym 1 Ionawr 2015) gyda'r diwygiad gan Fwletin Diweddariad 1 (mewn grym 1 Ionawr 2015).

### Amcanion a Gweithgareddau

Amcanion yr elusen yw datblygu addysg y myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd er budd y cyhoedd drwy:

- Hyrwyddo buddiannau a lles myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn ystod eu hastudiaeth a chynrychioli, cefnogi a chynghori myfyrwyr.
- Bod yn sianel gynrychiolaeth gydnabyddedig rhwng myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd ac unrhyw gyrff allanol eraill; a
- Darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon a hamdden yn ogystal â fforymau ar gyfer trafodaeth er mwyn datblygiad personol ein myfyrwyr.

Wrth lunio amcanion Gwirfoddoli Caerdydd ar gyfer y flwyddyn a chynllunio eu gweithgareddau, mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried canllawiau cyffredinol a pherthnasol atodol y Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd. Wrth fynd ar drywydd yr amcanion hyn er lles y cyhoedd, mae'r Undeb wedi sefydlu adrannau a gwasanaethau i'w defnyddio gan eu haelodau ac yn gweithio gyda'r Brifysgol a sefydliadau eraill ar ran myfyrwyr Prifysgol Caerdydd.

Mae'r Undeb yn gosod eu blaenoriaethau hirdymor yn unol â'u cynllun strategol, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn seiliedig ar ymchwil a gynhelir gyda myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried y cynllun strategol wrth osod amcanion blynyddol, a fynegir mewn cerdyn sgorio cytbwys a ddilynir gan Ymddiriedolwyr a staff yr Undeb. Ym mis Mai 2018 lansiodd yr Undeb eu cynllun strategol cyllidol ar gyfer 2018- 2021, gyda'r teitl 'Wrth Galon Profiad Myfyrwyr Caerdydd' a gellir ei ddarllen yma: https://www.cardiffstudents.com/about-cusu/plans.

### Adroddiad Ariannol

Cyfanswm incwm Grŵp yr Elusen oedd £9,934,887 (2018: £9,573,491) gyda chyfanswm gwariant o
£9,931,722 (2018: £9,311,448) dros y flwyddyn. O ganlyniad cafwyd cyfanswm incwm net o £3,165 (2018: £262,043). Mae hyn yn cynnwys incwm grant cyfyngedig o £16,781 a gwariant o £13,862.

Ar 31 Gorffennaf 2019 cyfanswm y cronfeydd wrth gefn rhydd yr Undeb (h.y. cronfeydd anghyfyngedig heb ei gynrychioli gan asedau sefydlog) oedd £1,008,172 (2018: £740,566) ac mae'r Ymddiriedolwyr yn fodlon bod gan yr Undeb sylfaen ariannol gadarn i fynd ar drywydd ei amcanion a'u gweithgareddau. Yn ogystal, daliwyd £24,715 (2018: £21,796) pellach mewn cyllidau wedi eu cyfyngu.

Parhaodd is-gwmni'r Undeb, GUCC, i gynyddu eu hincwm yn 2019 gyda throsiant o £4,516,928 (2018: £4,500,911) er gwaethaf amgylchiadau heriol. Yn gyffredinol gwnaeth y Cwmni masnachu ddiffyg gweithredol o £-1,256,541 (2018: £323,781), yn dilyn gostyngiad sylweddol mewn incwm grant. Mae'r gostyngiadau yn unioni'r gordaliadau a wnaethpwyd ers cyfuno cwmnïau'r Undeb yn 2015. Yn ystod y flwyddyn disgynnodd atebolrwydd pensiwn y Cwmni i £4,297,886 (2018: £4,407,704) ar ôl diffyg taliadau cyfraniad a dad-ddirwyn y gostyngiad. Mae'r diffyg ariannol yn codi o rwymedigaethau dyfodol y Cwmni tuag at Gynllun Pensiwn Undeb y Myfyrwyr (SUSS), a gafodd ei gau rhag croniad pellach yn 2011. Mae'r Ymddiriedolwyr a'r Cyfarwyddwyr yn fodlon bod arian i fodloni rhwymedigaethau i'r gronfa gan eu bod yn ddyledus dros fywyd y cynllun adfer diffyg ariannol hyd at 2033.

## Polisi Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu sefyllfa cronfeydd yr Undeb yn flynyddol ac yn gosod targedau ar gyfer lefelau cronfeydd wrth gefn yn unol ag anghenion y dyfodol, pe na fydd arian ar gael o'r ffynonellau ariannu gweithredol. Mae polisi wrth gefn yr Undeb yn datgan y bydd yr Undeb yn cyllidebu i gyflawni gwarged blynyddol o'i weithgareddau cyfnerthedig i ddatblygu cronfeydd rhydd anghyfyngedig o £1.3M erbyn 2023. Mae cronfeydd rhydd yn cael eu diffinio fel 'cyllid anghyfyngedig nad ydynt yn cael eu cynrychioli gan asedau sefydlog'.

Cyfanswm cronfeydd wrth gefn rhydd yr Elusen yw £1,421,355 (2018: £175,683) ac £1,008,172 (2018: £740,566) wedi eu cyfuno.

## Busnes gweithredol

Ar ôl gwneud ymholiadau addas, mae gan yr Ymddiriedolwyr ddisgwyliad rhesymol bod gan yr Undeb adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth gweithredol yn y dyfodol rhagweladwy. Am y rheswm hwn maen nhw'n parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau cyllid. Gellir dod o hyd i fanylion pellach yn ymwneud a mabwysiadu'r sail busnes gweithredol yn y Polisïau Cyfrifeg.

## CARDIFF UNIVERSITY STUDENTS' UNION
## (A Company Limited by Guarantee)

### CONSOLIDATED STATEMENT OF FINANCIAL ACTIVITIES INCORPORATING INCOME AND EXPENDITURE ACCOUNT
*FOR THE YEAR ENDED 31 JULY 2019*

| | Note | Unrestricted funds 2019 £ | Restricted funds 2019 £ | Total funds 2019 £ | Total funds 2018 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Income from:** | | | | | |
| Donations and legacies | 2 | 2,925,000 | 16,781 | 2,941,781 | 2,956,583 |
| Charitable activities | 4 | 2,468,637 | - | 2,468,637 | 2,115,210 |
| Other trading activities | | 4,516,928 | - | 4,516,928 | 4,500,911 |
| Investments | 3 | 7,541 | - | 7,541 | 787 |
| **Total income** | | 9,918,106 | 16,781 | 9,934,887 | 9,573,491 |
| **Expenditure on:** | | | | | |
| Raising funds | | 6,160,460 | - | 6,160,460 | 6,064,629 |
| Charitable activities | 5 | 3,757,400 | 13,862 | 3,771,262 | 3,246,819 |
| **Total expenditure** | | 9,917,860 | 13,862 | 9,931,722 | 9,311,448 |
| **Net income before other recognised gains and losses** | | 246 | 2,919 | 3,165 | 262,043 |
| **Net movement in funds** | | 246 | 2,919 | 3,165 | 262,043 |
| **Reconciliation of funds:** | | | | | |
| Total funds brought forward | | 8,759,739 | 21,796 | 8,781,535 | 8,519,492 |
| **Total funds carried forward** | | 8,759,985 | 24,715 | 8,784,700 | 8,781,535 |

**Cardiff University Students' Union**
**Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd**

## CARDIFF UNIVERSITY STUDENTS' UNION

Registered number: 07328777

### (A Company Limited by Guarantee)

**CONSOLIDATED BALANCE SHEET**
***AS AT 31 JULY 2019***

| | Note | £ | 2019 £ | £ | 2018 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Fixed assets** | | | | | |
| Tangible assets | 11 | | 12,049,699 | | 12,426,877 |
| Investments | 12 | | 73,563 | | 73,563 |
| | | | 12,123,262 | | 12,500,440 |
| **Current assets** | | | | | |
| Stocks | 13 | 70,786 | | 39,936 | |
| Debtors | 14 | 825,778 | | 539,582 | |
| Cash at bank and in hand | | 1,655,788 | | 1,174,851 | |
| | | 2,552,352 | | 1,754,369 | |
| **Creditors**: amounts falling due within one year | 15 | (1,593,028) | | (1,065,570) | |
| **Net current assets** | | | 959,324 | | 688,799 |
| **Total assets less current liabilities** | | | 13,082,586 | | 13,189,239 |
| Provisions for Liabilities | 16 | | (4,297,886) | | (4,407,704) |
| **Net assets** | | | 8,784,700 | | 8,781,535 |
| **Charity Funds** | | | | | |
| Restricted funds | 17 | | 24,715 | | 21,796 |
| Unrestricted funds | 17 | | 8,759,985 | | 8,759,739 |
| **Total funds** | | | 8,784,700 | | 8,781,535 |

Mae cyfrifau llawn ar gael: https://www.cardiffstudents.com/about-cusu/governance/financial-statements/

# EITEM PUMP

## Ymlyniadau

| | |
|---|---|
| NUS Affiliation Fee / Ffi Ymlyniad Undeb Myfyrwyr Cenedlaethol | £ 49,737 |
| BUCS Affiliation Fee / Ffi Ymlyniad Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain | £ 17,077 |

- Mae llawer o glybiau chwaraeon a chymdeithasau cofrestredig yn ymlynu i amryw o gorfforaethau chwaraeon a diwylliannol llywodraethol cenedlaethol.

- Mae llawer o'n clybiau chwaraeon a'n cymdeithasau cofrestredig yn gysylltiedig ag amrywiaeth o gyrff llywodraethu chwaraeon a diwylliannol cenedlaethol.

# EITEM SAITH

# Eitemau a gyflwynwyd i Undeb y Myfyrwyr

i. Adolygiad o Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu

**Cyflwyniad**

Mae Memorandwm ac Erthyglau'r Undeb yn ddogfen sy'n ffurfio cyfansoddiad yr Undeb, yn diffinio cyfrifoldebau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr, y math o fusnes y caiff yr Undeb ei gynnal a'r ffordd y mae'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn atebol i'r myfyrwyr.

**Cyd-destun yr Adolygiad a'r Broses**

Mae'r Erthyglau'n nodi bod yn rhaid i'r Memorandwm a'r Erthyglau gael eu hadolygu bob pum mlynedd, a nawr yw'r amser. Mae'r ddogfen yn addas i'r pwrpas, ond argymhellir cyfres o ddiwygiadau gweinyddol, gyda'r bwriad o egluro unrhyw beth sy'n amwys, dileu unrhyw ddyblygu, a diweddaru terminoleg.

Mae'r broses ar gyfer cymeradwyo'r Memorandwm a'r Erthyglau ar gael yn Adran 9 a dyma grynodeb o'r broses:-

- Diwygiadau arfaethedig i gael eu cytuno gan y Bwrdd Ymddiriedolwyr
- Diwygiadau arfaethedig i gael eu darparu i bob aelod sy'n Fyfyriwr – mae'r eitem hon yn gyfystyr a darparu
- Mae modd cyflwyno adolygiadau i'r cynigion trwy ddeiseb neu fwyafrif o'r Senedd Myfyrwyr
- Diwygiadau arfaethedig (neu gynigion wedi'u hadolygu) i gael eu cytuno mewn Cyfarfod o Aelodau sy'n Fyfyrwyr neu trwy refferendwm
- Diwygiadau i gael eu cytuno gan benderfyniad arbennig o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr
- Diwygiadau i gael eu cytuno gan Gyngor y Brifysgol

**Argymhelliad**

- Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r Memorandwm a'r Erthyglau fel y nodir yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn, er mwyn eu cyflwyno ar gyfer eu cymeradwyo, fel yr amlinellir uchod.
- Mewn perthynas â'r Is-ddeddfau a'r atodiadau i'r Is-ddeddfau, awdurdodi'r Senedd Myfyrwyr i ystyried goblygiadau unrhyw un o'r diwygiadau uchod, ac i wneud newidiadau priodol fel y gwêl yn dda.
- Awdurdodi'r Prif Weithredwr i wneud diwygiadau drafftio eraill sydd eu hangen o ganlyniad i'r newidiadau uchod er mwyn sicrhau cywirdeb gramadegol a chyfeiriadol.

| | | |
|---|---|---|
| **Jackie Yip** | **Daniel Palmer** | |
| **Llywydd** | **Prif Weithredwr** | **12 Tachwedd 2018** |

| **Rhif** | **Darpariaeth** | **Y geiriad presennol gan ddangos y newid arfaethedig. Llinell yn nodi dileu, testun trwm yn nodi ychwanegiad.** | **Y geiriad newydd arfaethedig** | **Y rhesymeg** |
|---|---|---|---|---|
| 23.6 | Ymddiriedolwyr Sabothol – contract cyflogaeth | 23.6 Wrth ddechrau eu cyfnod gwasanaethu fel Ymddiriedolwr Sabothol, bydd yr Ymddiriedolwr Sabothol yn ymrwymo i gontract cyflogaeth ag Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd ~~neu Wasanaethau Undeb Caerdydd Cyf~~ am gyfnod a bennir gan yr Is-ddeddfau. | 23.6 Wrth ddechrau eu cyfnod gwasanaethu fel Ymddiriedolwr Sabothol, bydd yr Ymddiriedolwr Sabothol yn ymrwymo i gontract cyflogaeth ag Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd am gyfnod a bennir gan yr Is-ddeddfau. | Byddai'r diwygiad arfaethedig yn adlewyrchu'r trefniadau ymarferol. |
| 30.1/<br><br>30.2 | Llenwi swydd wag Ymddiriedolwr Sabothol | 30.1 Os bydd Ymddiriedolwr Sabothol yn ymddiswyddo, yn cael ei ddiarddel neu'n cael ei wahardd o'i swydd ar unrhyw adeg cyn **neu ar ôl** i'r Flwyddyn Academaidd ddechrau, yna bydd y swydd wag ar y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cael ei llenwi yn unol â'r Is-ddeddfau.<br><br>~~30.2 Os bydd Ymddiriedolwr Sabothol yn ymddiswyddo, yn cael ei ddiarddel neu'n cael ei wahardd o'i swydd ar ôl i'r Flwyddyn Academaidd ddechrau, yna bydd y swydd wag yn cael ei llenwi yn unol â'r Is-ddeddfau.~~ Mae'n bosib y bydd gofyn i unrhyw un a etholir o dan yr Erthygl hon gymryd cyfrifoldebau Ymddiriedolwr Sabothol. | 30.1 Os bydd Ymddiriedolwr Sabothol yn ymddiswyddo, yn cael ei ddiarddel neu'n cael ei wahardd o'i swydd cyn neu ar ôl i'r Flwyddyn Academaidd ddechrau, yna bydd y swydd wag ar y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn cael ei llenwi yn unol â'r Is-ddeddfau. Mae'n bosib y bydd gofyn i unrhyw un a etholir o dan yr Erthygl hon gymryd cyfrifoldebau Ymddiriedolwr Sabothol. | Cyfuno darpariaethau presennol; dim newid effaith gwirioneddol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 33.2 | Sefydlu Pwyllgorau o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr | 33.2 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn sefydlu<br><br>• **Tîm Arwain a ddisgrifir ymhellach yn Erthygl 35**<br>• **Pwyllgor gyda chyfrifoldeb penodol dros oruchwylio perfformiad cyllid a chynaliadwyedd yr Undeb**<br>• **Pwyllgorau a/neu Is-bwyllgorau eraill sydd eu hangen er mwyn gweithredu eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, yn unol ag Erthyglau 32 a 33.1.**<br><br>~~y pwyllgorau canlynol (sydd ddim yn rhestr lawn)~~<br><br>~~33.2.1 Tîm Arwain (a ddisgrifir ymhellach yn Erthygl 35);~~<br><br>~~33.2.2 Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau~~<br><br>~~33.2.3 Pwyllgor Cyllid ac Archwilio~~<br><br>~~33.2.4 Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Chynnal a Chadw.~~ | 33.2 Bydd yr Ymddiriedolwyr yn sefydlu:-<br><br>• Tîm Arwain a ddisgrifir ymhellach yn Erthygl 35;<br>• Pwyllgor gyda chyfrifoldeb penodol dros oruchwylio perfformiad cyllid a chynaliadwyedd yr Undeb<br>• Pwyllgorau a/neu Is-bwyllgorau eraill sydd eu hangen er mwyn gweithredu eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau, yn unol ag Erthyglau 32 a 33.1.<br><br>(Os cânt eu cymeradwyo, bydd hyn hefyd yn golygu dileu 59.1.24, 59.1.27 a 59.1.36 sy'n diffinio'r Pwyllgorau rhagnodedig. Felly, fe argymhellir bod paragraff yn cael ei ychwanegu at 59.1 i roi diffiniad cyffredinol o Bwyllgor.) | Bydd dileu cylch gwaith a nifer rhagnodedig o Bwyllgorau yn galluogi i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr benderfynu pa strwythur Pwyllgor sydd orau ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol, heb orfod diwygio'r Erthyglau ymhellach. Bydd y Tîm Arwain a'r Pwyllgor Cyllid yn cael eu cadw. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 53.3 | Cyhoeddi Cofnodion | 53.3 Bydd cofnodion y cyfarfodydd y cyfeirir atynt yn Erthygl 53.1 uchod yn agored fel arfer ~~a byddant ar gael i'r Aelodau sy'n Fyfyrwyr ar wefan yr Undeb~~, oni bai bod y cofnodion hynny'n ymwneud â materion sydd wedi'u neilltuo neu sy'n gyfrinachol, gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, faterion disgyblaethol neu faterion yn ymwneud â staff.<br><br>**Os bydd y cofnodion yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol, yna bydd crynodeb o'r penderfyniadau a gymerwyd ar gael i Aelodau sy'n Fyfyrwyr ar wefan yr Undeb, ond ni fyddant yn cynnwys y wybodaeth gyfrinachol.**<br><br>Hefyd, bydd copïau o'r cofnodion yn cael eu cadw yn swyddfeydd yr Undeb. | 53.3 Bydd cofnodion y cyfarfodydd a gyfeirir atynt yn Erthygl 53.1 uchod yn agored fel arfer, oni bai bod y cofnodion hynny'n ymwneud â materion sydd wedi'u neilltuo neu sy'n gyfrinachol, gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, faterion disgyblaethol neu faterion yn ymwneud â staff.<br><br>Os bydd y cofnodion yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol, yna bydd crynodeb o'r penderfyniadau a gymerwyd ar gael i Aelodau sy'n Fyfyrwyr ar wefan yr Undeb, ond ni fyddant yn cynnwys y wybodaeth gyfrinachol.<br><br>Hefyd, bydd copïau o'r cofnodion yn cael eu cadw yn swyddfeydd yr Undeb. | Wrth i natur busnes yr Undeb ddatblygu, prin yw'r adegau pryd na fydd cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn cynnwys gwybodaeth na ddylid ei chyhoeddi am resymau cyfrinachedd masnachol a/neu i osgoi rhyddhau gwybodaeth bersonol.<br><br>Mae'r diwygiad arfaethedig yn cadw'r rhagdybiaeth o fod agored ynghyd â'r darpariaethau sy'n caniatáu diogelu cyfrinachedd masnachol a phersonol, ond mae hefyd yn sicrhau cyhoeddi'r penderfyniadau a gymerwyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 59.2 | Dehongliad – defnydd o dermau rhyweddol | Bydd geiriau sy'n dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb; ~~a bydd geiriau sy'n dynodi'r gwrywaidd yn cynnwys y benywaidd ac i'r gwrthwyneb.~~<br><br>**Pan fydd y geiriau "nhw", "eu" ac "eu hunain" yn cael eu defnyddio i ddisgrifio unigolyn, byd y geiriau yn cyfeirio at yr unigolyn hwnnw, beth bynnag yw hunaniaeth yr unigolyn hwnnw o ran rhywedd.** | Bydd geiriau sy'n dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb. Pan fydd y geiriau "nhw", "eu" ac "eu hunain" yn cael eu defnyddio i ddisgrifio unigolyn, bydd y geiriau yn cyfeirio at yr unigolyn hwnnw, beth bynnag yw hunaniaeth yr unigolyn hwnnw o ran rhywedd. | Mae'r Undeb yn cymryd camau i ddefnyddio iaith gynhwysol a niwtral a bydd y diwygiad arfaethedig yn sicrhau bod yr Erthyglau yn cyd-fynd â'r gwaith hynny. |

## ii) Adolygiad Swyddogion Sabothol

**Opsiwn A - Disodli rôl yr Is-Lywydd Ôl-raddedig**

Disodli rôl Is-Lywydd Ôl-raddedig gyda rôl newydd Is-Lywydd yr Iaith Gymraeg a'r Gymuned (byddai'r holl rolau presennol eraill yn aros yr un fath). Byddai rhai o ddyletswyddau'r IL Ôl-raddedig yn cael eu trosglwyddo i'r IL Addysg, gyda chymorth gan rôl Swyddog Ymgyrch ar gyfer Myfyrwyr Ôl-raddedig. Byddai'r tîm llawn yn cynnwys:

- Llywydd Undeb y Myfyrwyr
- Is-lywydd yr Iaith Gymraeg a'r Gymuned
- Is-lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli
- Is-lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletaidd
- Is-lywydd Lles ac Ymgyrchoedd
- Is-Lywydd Addysg
- Is-Lywydd Parc y Mynydd Bychan

**Opsiwn B - Uno rôl yr IL Addysg a'r IL Lles ac Ymgyrchoedd**

Uno'r rolau Addysg a Lles i gael swyddi yn seiliedig ar ddull astudio a lleoliad yn ogystal â chreu swydd IL yr Iaith Gymraeg a'r Gymuned. Byddai'r tîm llawn yn cynnwys:

- Llywydd Undeb y Myfyrwyr
- Is-lywydd yr Iaith Gymraeg a'r Gymuned
- Is-lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletaidd
- Is-lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli
- Is-Lywydd Addysg a Lles - Myfyrwyr Israddedig
- Is-Lywydd Addysg a Lles - Campws Parc Mynydd Bychan
- Is-Lywydd Addysg a Lles - Myfyrwyr Ôl-raddedig

**Opsiwn C - Aros yr un fath gydag Adolygiad**

Byddai rolau'r tîm swyddogion presennol yn aros yr un fath, serch hynny bydd adolygiad blwyddyn o hyd yn edrych ar sut gellir ymgorffori'r Gymraeg ar draws gweithgareddau'r undeb. Byddai'r tîm llawn yn cynnwys:

- Llywydd Undeb y Myfyrwyr
- Is-lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli
- Is-lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletaidd
- Is-Lywydd Parc y Mynydd Bychan
- Is-lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig
- Is-Lywydd Addysg
- Is-lywydd Lles ac Ymgyrchoedd

Gan adolygu'r swyddi sy'n bodoli ar hyn o bryd a'r mecanweithiau ar gyfer gwneud penderfyniadau, dylai Undeb y Myfyrwyr adolygu sut gellir gweithredu cynrychiolaeth ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg. Byddai'r adolygiad, a fydd yn para blwyddyn, yn canolbwyntio ar ymgysylltu â siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg a deall eu hanghenion drwy ymgynghori gweithredol.

# EITEM WYTH

## A) Cynigion yn darfod

Mae'r cynigion canlynol a basiwyd yn y CCB wedi dod i ben ers y CCB diwethaf. Cyflwynir y rhain er gwybodaeth yn unig. Pasiwyd pob cynnig ar y 24fed Tachwedd 2016

Swyddog Ymgyrch Iechyd Meddwl - Noder: bydd y swyddog hwn yn parhau mewn bodolaeth wedi i'r polisi hwn ddarfod
Herio nid Sensro

Bod yn Undeb Dim Goddefgarwch
Misglwyf mewn Tlodi

**Ewch i'r adran hon o'r wefan i weld bob polisi - https://www.cardiffstudents.com/your-voice/policy/**

## B) Cynigion a gyflwynwyd

## CYNNIG UN

### Gwneud Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn Gyflogwr Cyflog Byw

Mae'r CCB yn Nodi:

1. Mae Prifysgol Caerdydd ymysg grwp fechan o brifysgolion yn y DU sy'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w cyflogwyr. (1)
2. Fodd bynnag, nid yw Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn gyflogwr Cyflog Byw.
3. Straen ariannol yw un o brif achosion o broblemau iechyd meddwl ymysg pobl ifanc, felly drwy dalu cyflog teg i'w gweithwyr, bydd yn adeiladu ar eu gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr, sydd eisoes yn wych, wrth fynd i'r afael a phroblemau iechyd meddwl ymysg myfyrwyr a phobl ifanc.
4. Bod Prifysgol Caerdydd ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn cael eu hystyried fel yr un sefydliad gan nifer o fyfyrwyr, yn enwedig o ganlyniad i adeiladu'r Canolfan Bywyd y Myfyrwyr.
5. Mae Undeb y Myfyrwyr Caerdydd yn parhau i fynd o nerth i nerth gydag eu poblogrwydd, yn parhau i wneud elw sylweddol wedi eu nosweithiau clwb clodfawr.
6. Yn ôl arolwg 'Pound in Pocket' UCM, mae Myfyrwyr gydag Anabledd yn fwy tebygol i adrodd eu bod yn teimlo fel nad oes ganddynt reolaeth o'u sefyllfa ariannol yn y Brifysgol. Bydd cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn gymorth sylweddol i wella hyn. (2)
7. Mae o fewn buddiannau Undeb y Myfyrwyr Caerdydd i gydymffurfio gyda pholisi swyddogol Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) yn ogystal â Undebau Llafur ar draws y DU.
8. Pleidleisiwyd o blaid talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol gan Senedd y Myfyrwyr yn 2013, ond ni barchwyd na chefnogwyd y penderfyniad gan yr Undeb.

Cred y CCB:

1. Mae'n synnwyr cyffredin i'r Undeb ddefnyddio'r cyflog byw, oherwydd bydd hyn yn caniatáu gostyngiad mewn straen ariannol ar eu gweithwyr ac yn ei dro, yn helpu mynd i'r afael â cynydd parhaol problemau iechyd meddwl yn y genhedlaeth ifanc.
2. Mae'r gost o fyw yng Nghaerdydd yn araf gynyddu, drwy dalu eu gweithwyr gyda'r cyflog byw bydd yr Undeb yn dangos eu bod yn cymryd costau byw myfyrwyr o ddifrif.
3. Drwy dalu Cyflog Byw i weithwyr yr Undeb, byddant yn fwy cynhyrchiol, yn golygu bod yr Undeb yn weithle fwy hapus ac yn rhoi hwb i gyfraddau bodlonrwydd Myfyrwyr a Iechyd Meddwl staff ein tafarn Myfyrwyr hoff a Nosweithiau allan.
4. Bydd Undeb Myfyrwyr sy'n talu'r Cyflog Byw yn atyniad mawr i fyfyrwyr posib sy'n edrych am waith wrth astudio yn y Brifysgol.
5. Mae ond yn gwneud synnwyr i'r Undeb a'r Brifysgol i ddefnyddio polisi cyflog byw cyffredin, gan eu bod yn cael eu hystyried fel yr un sefydliad gan nifer o fyfyrwyr.
6. Mae talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn parchu gwaith caled staff Myfyrwyr a chontractwyr yma yn Undeb y Myfyrwyr, hefyd yn cynorthwyo eu Hiechyd Meddwl drwy leihau straen ariannol ar eu bywydau.

7. Drwy ymlynu gydag Undeb Llafur fel GMB, bydd gweithwyr Undebau Myfyrwyr yn parhau heb fygythiad gan yr Undeb, i gael eu talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

**Cred y CCB Ymhellach:**

1. Fod achredu cyflog byw mewn gwirionedd o fudd i fusnesau. Canfuwyd y sefydliad cyflog byw bod 93% o gyflogwyr Cyflog Byw yn dweud eu bod wedi elwa o gyflwyno'r cyflog byw gyda 86% yn dweud ei fod wedi gwella enw da eu busnes. (3)
2. I gyd fynd a Phrifysgol Caerdydd yn ennill Prifysgol y Flwyddyn yng Nghymru 2018 (4), mae ganddo enw da amlwg, a thrwy wella enw da undeb y myfyrwyr hefyd, bydd graddfeydd boddhad myfyrwyr yng Nghaerdydd yn cynyddu, yn arwain at orffen yn uwch yn y tabl cynghrair.
3. Mae gan Undeb y Myfyrwyr enw da ardderchog yn barod ac fe gaiff ei gyfnerthu gan waith caled a gwasanaeth ardderchog eu gweithwyr, nawr mae'n amser, i ni fel y rhai sy'n elwa ar eu gwasanaethau, i roi yn ôl i'r gweithwyr gyda chyflog teg.

**Penderfyna'r CCB:**

1. Fod Undeb y Myfyrwyr Caerdydd yn gwneud cais i'r Sefydliad Cyflog Byw am achrediad Cyflog Byw cyn gynted a gaiff y camau angenrheidiol eu cymryd.
2. Bod holl staff presennol a newydd a gaiff eu cyflogi gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn derbyn cyflog byw o leiaf £9.30 yr awr o fewn y tair blynedd academaidd nesaf i gyfateb a'r Ymgyrch Cyflog Byw. (5)
3. I sicrhau nad fydd unrhyw doriadau i wasanaethau Iechyd Meddwl o ganlyniad i gyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol.
4. Bod Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn cynllunio yn syth, i gyflogi yr holl gontractwyr ar y safle gyda'r Cyflog Byw o fewn y tair blynedd academaidd nesaf.

**Cynigydd:** Leo Holmes
**Eiliwyd gan:** Elinor Cheason.

Cyfeiriadau:

(1)
https://www.cardiff.ac.uk/news/view/69124-a-Living-Wage-employer
(2)
www.nus.org.uk
(3)
https://www.LivingWage.org.uk/good-for-business
(4)
https://www.cardiff.ac.uk/news/view/937922-welsh-university-of-the-year-2018
(5)
https://www.livingwage.org.uk/

## CYNNIG DAU

### Ymrwymiad i fynd i'r afael â hiliaeth sefydliadol yng Nghaerdydd.

Mae'r CCB yn Nodi

1. Yn fuan yn 2019, lansiodd Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (ECHR) ymholiad i mewn i aflonyddu hiliol mewn prifysgolion a ariannir yn gyhoeddus ym Mhrydain.
2. Ffurfiwyd yr ymholiad i ddeall profiadau myfyrwyr o aflonyddu hiliol a'r effaith y gall gael ar eu addysg, gyrfa a lles. Cefnogodd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yr ymholiad hwn a rhannu'r arolwg myfyrwyr a gynhaliwyd gyda myfyrwyr.
3. Ym mis Hydref 2019, fe wnaethant ryddhau canfyddiadau'r ymholiad o amgylch hiliaeth mewn addysg uwch.
4. Mae canfyddiadau yr ymholiad yn dangos bod aflonyddu hiliol yn brofiad cyffredin ar gyfer ystod eang o fyfyrwyr a staff mewn Prifysgolion.
5. Dywedodd oddeutu chwarter o fyfyrwyr o gefndir lleiafrifoedd ethnig (24%) eu bod wedi profi aflonyddu hiliol ers dechrau eu cwrs. (CYFERINOD 1) Gydag 1 mewn bob 20 myfyriwr yn adrodd eu bod wedi gadael eu hastudiaethau o ganlyniad i aflonyddu hiliol. (CYFEIRNOD 2)
6. Disgrifiodd dros hanner y staff a ymatebodd i'r ymholiad am ddigwyddiadau o gael eu hanwybyddu neu eu heithrio oherwydd eu hil. Gyda 3 ym mhob 20 aelod o staff yn dweud fod aflonyddu hiliol wedi achosi iddynt roi'r gorau i'w swyddi. (CYFEIRNOD 3)
7. Ni wnaeth dau draean o fyfyrwyr a ddywedodd eu bod wedi profi aflonyddu hiliol adrodd hynny i'r brifysgol oherwydd diffyg hyder yn y broses, ac nad oeddynt yn siŵr sut i wneud cwyn. Roedd rhai yn meddwl nad oeddynt yn gwybod os oedd yn ddigon difrifol ac adroddodd eraill eu bod wedi cael trafferthion o brofi beth ddigwyddodd. (CYFEIRNOD 4)

Cred y CCB:

1. Does dim lle i hiliaeth mewn cymdeithas. Dylai prifysgolion fod yn arwain y ffordd wrth fynd i'r afael ag ymddygiadau a newid diwylliant i sicrhau bod bob myfyriwr yn gallu astudio heb ofni y byddant yn cael eu haflonyddu.
2. Dylai'r Undeb a'r Brifysgol ymateb yn weithredol i'r ymholiad hwn a mynd i'r afael â'r ystadegau a amlinellir yn yr adroddiad.

Mae'r CCB yn penderfynu:

1. Dylai'r Brifysgol gydnabod yn gyhoeddus eu dyletswydd i weithredu ar y canfyddiadau hyn a bod yn ymroddedig i ganfod datrysiadau.
2. I alw ar y Brifysgol i ryddhau datganiad cyhoeddus i'r adroddiad ECHR, yn amlinellu pa ymateb sy'n cael ei wneud ac ymrwymiad i amserlen i weithredu'r awgrymiadau.
3. Undeb y Myfyrwyr i weithio gyda'r Brifysgol i ddarganfod atebion a rhoi newidiadau mewn grym, gan sicrhau bod lleisiau myfyrwyr yn cael eu clywed wrth ddatblygu'r camau nesaf.

4. Undebau myfyrwyr i weithio gydag Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru i lobio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW) i sicrhau'r argymhelliad o'r adroddiad hwn yn cael ei weithredu a disgwyliadau clir yn cael eu rhoi ar Brifysgolion gan y corff cyllido.

**Cynigydd:** Jackie Yip, Llywydd Undeb y Myfyrwyr

**Eiliwyd gan:** Cindy Ikie, Swyddog Ymgyrch Myfyrwyr Duon a Lleiafrifoedd Ethnig

**Cyfeiriadau:**

(1) https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/tackling-racial-harassment-universities-challenged-executive-summary.pdf. Pg. 2

(2) https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/tackling-racial-harassment-universities-challenged-executive-summary.pdf. Pg. 4

(3) Ibid.

(4) https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/tackling-racial-harassment-universities-challenged-executive-summary.pdf. Pg. 5

## CYNNIG TRI

### Gweithredu Diwydiannol UCU

**Mae'r CCB yn Nodi**

1. Mae'r Sector Addysg Uwch yn wynebu argyfwng amodau cyflogaeth gwael
2. Yn dilyn pleidlais ddemocrataidd cenedlaethol, Mae Undeb y Colegau a'r Prifysgolion (UCU) yn ymgymryd mewn streic dros ddau anghydfod cyfreithiol; un ar bensiynau ac un ar dâl ac amodau gwaith.
3. Pleidleisiodd aelodau staff Prifysgol Caerdydd sy'n aelodau o UCU yn eu niferoedd o blaid gweithredu diwydiannol. Bydd gweithredu diwydiannol yn digwydd dros 8 diwrnod rhwng 25 Tachwedd a 4ydd Rhagfur a bydd aelodau UCU hefyd yn dechrau Gweithredu Parhaus nad yw'n cynnwys streicio, sy'n golygu gweithio'n llym i'r contract, dim yn llanw ar gyfer gweithwyr absennol, ac yn gwrthod ail-drefnu darlithoedd a gollwyd yn ystod y gweithredu diwydiannol.
4. Mae gweithredu diwydiannol UCU yn ymwneud â phensiynau a'r 'Four Fights':

    i. Sefydlogrwydd - Mae prifysgolion yn dibynnu ar nifer sylweddol o staff, sawl myfyriwr ôl-raddedig, ar gontractau ansefydlog neu ysbeidiol nad ydynt yn creu amodau gwaith sefydlog na chynaliadwy.
    ii. Anghydraddoldeb - Anghydraddoldeb: Roedd bwlch cyflog rhwng rhywiau yn 21.6% yn 2018, mae UCU yn mynnu gweithredu pendant i gau'r bwlch cyflog rhywiau a blwch cyflog ethnig.
    iii. Llwyth gwaith - Mae disgwyl rheolaidd ar staff y Brifysgol i weithio goramser di-dâl - dywedodd 52% o ymatebion Arolwg Staff blynyddol Prifysgol Caerdydd nad oeddynt yn gallu cyflawni gofynion eu swydd heb 'weithio oriau afresymol yn rheolaidd'.
    iv. Tâl - Mae UCU wedi cyfrifo bod codiad cyflog yn is na chwyddiant ers 2009 ac wedi golygu bod staff y Brifysgol wedi derbyn toriad cyflog o 20% mewn termau real, ac yn gofyn am gynydd mewn tâl i gadw at Fynegai Prisiau Manwerthu (RPI) gyda chynnydd o 3% neu £3,349 ychwanegol (pa bynnag un sy'n uwch) eleni er mwyn dal i fyny.

5. Cynhaliwyd gweithredu diwydiannol yn 2018 hefyd mewn anghydfod dros gynllun pensiwn USS lle roedd pensiynau staff am gael eu torri o dros hanner[1]. Er enghraifft, byddai pensiwn £20,000 academydd 40-mlwydd-oed, gyda 15 mlynedd o brofiad dysgu yn cael ei haneru i ddim on £9,000
6. Cefnogodd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr y gweithredu diwydiannol yn 2018[2], ac yn sefyll ' ysgwydd yn ysgwydd' gyda staff yn yr anghydfod presennol[3], ond yn 2018 ni lwyddodd Undeb Myfyrwyr Caerdydd wneud safiad o fewn yr amser gofynnol, a ynysodd llawer o fyfyrwyr a staff.

---

[1] http://www.cardiffucu.org.uk/2019/11/07/ucu-strike-2019-summary-of-key-issues/
[2] https://www.nusconnect.org.uk/articles/uss-pensions-dispute-joint-ucu-nus-statement
[3] https://www.ucu.org.uk/article/10324/NUS-stands-shoulder-to-shoulder-with-UCU-in-fight-for-fair-pay-and-pensions

7. Mae grŵp gwrth-waith-ysbeidiol wedi cael ei greu gan staff a myfyrwyr ôl-raddedig Prifysgol Caerdydd pryderus, yn anelu i ddarparu cefnogaeth i staff ansefydlog a gwrthwynebiad i amodau gwaith anffurfiol, annheg sy'n gwaethygu. Maen nhw wedi bod yn gweithio am bedair blynedd i sicrhau statws gweithwyr i addysgwyr ôl-raddedig.

Cred y CCB:

1. Y dylai Undeb y Myfyrwyr gefnogi gweithredu diwydiannol yr UCU
2. Nid yw'r gweithredu diwydiannol hwn am bensiynau yn unig, mae'n ymwneud ag amddiffyn diwylliant gwaith o fewn ein Prifysgol. Mae ynglŷn â gwneud safiad yn erbyn anghydraddoldeb cyflog, gwaith ansefydlog, anghydraddoldeb a llwyth gwaith gormodol a fydd yn effeithio ein darlithoedd, ein haddysg a llawer o fyfyrwyr ôl-raddedig sy'n addysgu.
3. Ym mhellach, mae aelodau o UCU wedi cefnogi myfyrwyr dros y blynyddoedd ac wedi helpu gydag ymgyrchoedd megis gwrthwynebu cynydd mewn ffioedd dysgu a diddymu grantiau cynhaliaeth. Mae hwn yn rhan o'r broblem ehangach o farchnadeiddio addysg a chreu cystadleuaeth gynyddol ymysg prifysgolion. Mae'r materion a godir gan yr UCU yn oblygiad arall o farchnadeiddio sydd yn cael effaith andwyol ar ein myfyrwyr, ein staff, ar gymuned ehangach
4. "Mae amodau gwaith staff yn amodau dysgu myfyrwyr"[4], mae ein profiad myfyrwyr yn cael ei effeithio gan faterion cyflogaeth sy'n wynebu ein darlithwyr ac aelodau staff gwasanaethau proffesiynol yma ym Mhrifysgol Caerdydd.
5. Yn ystod streic pensiwn llynedd, arwyddodd 6,785 o fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd ddeiseb wedi ei drefnu gan fyfyrwyr yn datgan,"rydyn ni'n sefyll gydag ein darlithwyr ac yn teimlo bod eu gofynion wedi eu cyfiawnhau" ac yn mynnu iawndal ariannol am oriau dysgu a gollwyd ac am amgylchiadau esgusodol i gael eu rhoi i fyfyrwyr. Dangosodd pleidlais YouGov bod, 66% o fyfyrwyr yn cefnogi'r streic,2% yn rhoi'r bai ar staff am yr amharu., a 50% yn rhoi bai ar y prifysgolion.[5]
6. Caiff y sgil effeithiau y mae amodau gwaith yn ei gael ar iechyd meddwl staff [6] a myfyrwyr eu nodi yn eang.[7]. Mae hyn wedi cael ei deimlo yn enwedig o gryf yng Nghaerdydd yn dilyn hunanladdiad aelod o staff yn yr ysgol fusnes, y mae ei weddw yn dweud bod y digwyddiad mewn perthynas uniongyrchol â llwyth gwaith[8]. Mae o bwysigrwydd mawr ein bod yn ystyried achosion iechyd meddwl gwael o fewn ein cymuned yn y brifysgol, a llwyth gwaith afresymol sy'n ein heffeithio ni gyd.
7. Mae gan Undeb y Myfyrwyr gyfrifoldeb i gefnogi materion a wynebir gan fyfyrwyr ôl-raddedig sy'n addysgu megis, pwysau llwyth gwaith, contractau ansefydlog a diffyg hawliau cyflogaeth

---

[4] http://www.cardiffucu.org.uk/2019/11/07/ucu-strike-2019-summary-of-key-issues/
[5] https://www.change.org/p/colin-riordan-cardiff-university-vice-chancellor-president-ucu-strike-action-cardiff-university-student-response
[6] https://www.bbc.co.uk/news/education-48353331?fbclid=IwAR1tonDO0CghPR5gWyeWobI2BnrIQ8DqfAy7UpI69fTOcez9U0XFRrc0MS0
[7] https://www.thegryphon.co.uk/2019/05/03/academic-staff-the-forgotten-victims-of-the-university-mental-health-crisis/
[8] https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-47296631?fbclid=IwAR3ponP8j_nfLVYdavo-ToxAeWedYVunZZiMe-tV2tjmr_4dRI8ZavaI3Ew

Cred y CCB Ymhellach:

1. Os oes gan yr UCU gefnogaeth gan yr Undeb, mae hyn yn cynyddu'r pwysau ar y Brifysgol a Phrifysgolion y DU a UCEA (Cymdeithas Cyflogwyr Prifysgolion a Cholegau) sy'n cynrychioli cyflogwyr i ddod i gytundeb gyda'r UCU, yn cryfhau llaw bargeinio UCU, ac felly yn dod â datrysiad cynt i'r gweithredu diwydiannol.

Mae'r CCB yn penderfynu:

1. I fandadu swyddogion etholedig i sefyll mewn undod gyda UCU a chyhoeddi datganiad cyhoeddus o gefnogaeth dros weithredu 2018/19, cyn 25ain Tachwedd.
2. I fandadu'r swyddogion etholedig i weithio gydag UCU ac i annog y brifysgol i gwrdd a gofynion yr undeb yn ymwneud â'r 'Four Fights' a phensiynau
3. I fandadu y swyddogion etholedig i roi llwyfan cyfathrebu i UCU gyda myfyrwyr ar-lein ac oddi ar y we i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r streic a gofynion UCU
4. Dylai Undeb y Myfyrwyr weithio gyda UCU i hwyluso a hyrwyddo sesiynau 'Teach-Out' i fyfyrwyr yn ystod cyfnod y streic
5. Dylai Undeb y Myfyrwyr lobio'r Brifysgol i gael ad-daliad ffi am unrhyw oriau cyswllt a gaiff eu colli.
6. Bydd Is-lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig yn annog myfyrwyr ÔRY sy'n addysgu, sydd eisiau cefnogi'r streic, i ymuno â UCU ac i wneud cais i'r gronfa Streic UCU - cronfa sy'n rhoi cymhorthdal am incwm a gollwyd i'r rheiny sy'n streicio.
7. 

**Cynigydd** Hebe Fletcher

**Eiliwyd gan** Joe Healy

CYNNIG PEDWAR

## Polisi Amgylcheddol Radical

Mae'r CCB yn Nodi:

1. Mae Panel Rhynglywodraethol Y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (IPCC) wedi rhybuddio y bydd rhaid i allyriadau nwyon tŷ gwydr byd-eang ostwng o leiaf 45% erbyn 2030 er mwyn parhau ar lefelau diogel o dymheredd byd-eang. Mae angen i'r gwledydd cyfoethocaf arwain y ffordd drwy ddatgarboneiddio yn gynt a mae rhaid i allyriadau byd-eang ostwng o 2020 ymlaen er mwyn i'r llwybr allyriadau hwn gael ei ddilyn.
2. Mae'r byd ar hyn o bryd yng nghanol digwyddiad y Chweched Difodiant Torfol, sydd wedi cael ei achosi yn bennaf gan weithgaredd ddynol megis dinistrio cynefinoedd, llygredd a allyriadau tanwyddau ffosil.
3. Does dim llawer o ymgyrchu ar y campws sy'n pwysleisio'r brys y mae'r datganiadau uchod yn ei sefydlu. Mae hyn er gwaetha'r ffaith bod yr argyfyngoedd hinsawdd ac ecolegol yn cael effaith ar holl fyfyrwyr y DU a rhyngwladol, yn enwedig myfyrwyr o grwpiau ar y cyrion a'r De Eang.
4. Mae Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd wedi datgan bod argyfwng hinsawdd, ond nid yw yr un o'r sefydliadau hyn wedi dadorchuddio unrhyw weithred mawr y byddant yn ei gyflawni o fewn y 12 mis nesaf er mwyn mynd ir afael â hyn.
5. Nid yw Prifysgol Caerdydd wedi datgan argyfwng hinsawdd eto ond maent yn datblygu polisi amgylcheddol newydd. Nid yw'n amlwg os bydd y polisi newydd hwn yn golygu unrhyw weithredu mawr o fewn y 12 mis nesaf.
6. Ar hyn o bryd does dim llawer o gynrychiolaeth o fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn y broses gwneud penderfyniadau ar yr amgylchedd yn Undeb y Myfyrwyr na'r Brifysgol. Roedd uchafswm o 2 gynrychiolydd myfyrwyr a ddewiswyd gan y Bwrdd yn bresennol yng nghyfarfod argyfwng hinsawdd diwethaf Undeb y Myfyrwyr.

Cred y CCB:

1. Mae gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd ddyletswydd i roi gwybod yn aml i fyfyrwyr am yr argyfyngau hyn.
2. Mae gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd ddyletswydd i arwain y ffordd mewn creu campws gynaliadwy ddi-garbon ac ecolegol i fyfyrwyr ei brofi.
3. Mae gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, fel undeb, a Phrifysgol Caerdydd, fel sefydliad academaidd, ddyletswydd i fynnu gweithredu radical gan y llywodraeth er mwyn amddiffyn pawb ar y campws hwn oddi wrth argyfyngau ecolegol.
4. Byddai'r ddau sefydliad yn cynrychioli myfyrwyr yn well ar y materion hyn pe byddai mwy o fyfyrwyr yn rhan o'r broses gwneud penderfyniad ar yr amgylchedd.

**Penderfyna'r CCB:**

1. Mae'n rhaid i Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd greu a dechrau lledaenu ymgyrch 'Dweud y Gwir' ynglŷn â'r argyfyngau hinsawdd a ecolegol ar y campws erbyn diwedd y tymor academaidd nesaf. Mae angen hyn gael ei weithredu gan o leiaf IL Lles, IL Addysg a Swyddog Moesegol ac Amgylcheddol, a hynny ar y cyd gyda grwpiau ymgyrchu ac amgylcheddol sydd â diddordeb megis Extinction Rebellion Myfyrwyr Caerdydd.
2. Y mae'n rhaid i Undeb y Myfyrwyr, drwy'r swyddogion etholedig a grwpiau cydweithredol hynny, lobio'r Brifysgol i gyfathrebu'r gwir am yr argyfyngau hyn i fyfyrwyr erbyn diwedd y tymor academaidd nesaf.
3. Mae'n rhaid i Undeb y Myfyrwyr ymrwymo i roi'r gorau i unrhyw golled bioamrywiaeth yn ei weithredoedd a tharged o ddim carbon net erbyn 2025. Mae'n rhaid i'r ymrwymiadau hyn gael eu hychwanegu i bolisi amgylcheddol Undeb y Myfyrwyr ar unwaith.
4. Mae angen i Undeb y Myfyrwyr lobio'r Brifysgol i ymrwymo ar unwaith, yn ei bolisi amgylcheddol, i roi terfyn ar unrhyw golled fioamrywiaeth yn ei weithredoedd ac i ychwanegu at darged o gyflawni dim carbon net erbyn 2025.
5. Mae rhaid i'r targedau polisi amgylcheddol hyn ar gyfer bioamrywiaeth ac allyriadau carbon gael eu cyflawni drwy benderfyniadau Senedd Myfyrwyr ar gyfer Cyfiawnder Hinsawdd ac Ecolegol. Mae'n rhaid iddynt gael eu sefydlu a'i cymeradwyo gan Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol o fewn y flwyddyn academaidd hon fel bod ei gylch gorchwyl yn cyrraedd yr holl gampws cyn gynted â phosibl.
6. Dylai Senedd y Myfyrwyr weithio fel Senedd Dinasyddion a chynnwys sampl ar hap o 500 o fyfyrwyr. Dylai'r Sampl fod yn gynrychiolaeth o gorff y myfyrwyr yng nghyd-destun ysgol yn y Brifysgol, hunaniaeth rhywedd, ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadaeth rhywiol, statws ariannol, gyda chyfran gywir o israddedigion ac ôl-raddedigion, a chael y cyfran gywir o fyfyrwyr cenedlaethol a rhyngwladol.
7. Mae'n ddealladwy bod Undeb y Myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd yn ddim ond dau sefydliad a bod ffactorau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd, a thechnolegol allanol yn cyfyngu eu gallu i weithredu rhai polisïau a osodir gan unrhyw Senedd Myfyrwyr. O dan amgylchiadau lle nad yw un o'r ddau o'r sefydliadau yn gallu gweithredu polisïau Senedd y Myfyrwyr, mae'n rhaid iddynt fod yn weithredol yn mynnu bod y llywodraeth yn gwneud newidiadau systemig a fydd yn caniatáu iddynt wneud hynny.

**Cynigydd:** Matt Tomlin

**Eiliwyd gan:** Jordan Leeming

Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

CYNNIG PUMP

## Mabwysiadu safiad swyddogol o blaid dewis (*pro-choice*)

**Mae'r CCB yn Nodi**

1. Ar hyn o bryd nid oes gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd safiad ar hawliau erthylu nag ymreolaeth corfforol.
2. Mae gwybodaeth anghywir ynglŷn â phrosesau meddygol erthylu wedi cael ei ledaenu gan gymdeithasau sydd wedi eu hymlynu i Undeb y Myfyrwyr yn ogystal ag yn y cyfryngau yn gyffredinol.
3. Mae gwybodaeth anghywir ynglŷn â sgil effeithiau cario beichiogrwydd digroeso wedi cael ei ledaenu gan gymdeithasau sydd wedi eu hymlynu i Undeb y Myfyrwyr yn ogystal ag yn y cyfryngau yn gyffredinol.
4. Ceir nifer sylweddol o dystiolaeth yn dangos sgil effeithiau niweidiol cario beichiogrwydd digroeso.
5. Mae gan Undeb y Myfyrwyr ymwybyddiaeth flaenllaw o faterion eraill yn ymwneud ag iechyd fel iechyd meddwl, lles a iechyd rhywiol ac eto dim on un tudalen gwe ar 'Gefnogaeth Beichiogrwydd".
6. Ar hyn o bryd nid yw'r dudalen we "Cefnogaeth Beichiogrwydd" yn ffafrio cydraddoldeb gan ei fod yn ansensitif tuag at bobl beichiog sy'n ystyried erthylu drwy gyfeirio at ffoetysau 13-wythnos fel "babi" sydd yn feddygol anghywir ac yn stigmateiddio terfynu beichiogrwydd ymhellach.
7. Does dim gwybodaeth hawdd eich gyrchu ar gael ar wefan Undeb y Myfyrwyr ar iechyd atgenhedlu yng nghyd-destun beichiogrwydd, cam-esgoriad ac erthyliadau - ar hyn o bryd ceir cyfeiriad at "weithiwr gofal iechyd proffesiynol".
8. Mae 'Cynllun Cydraddoldeb Strategol Prifysgol Caerdydd, 2016-2020', a gyhoeddwyd yn 2016, yn datgan mai Amcan 2 (tudalen 12) yw "Denu a chadw'r myfyrwyr disgleiriaf o amrywiaeth o gefndiroedd drwy ddarparu amgylchedd dysgu ac addysgu cynhwysol a chefnogol".
9. Mae "Beichiogrwydd a Mamolaeth" yn nodweddion a amddiffynnir o dan Deddf Cydraddoldeb 2010.
10. Mae ymreolaeth corfforol a mynediad at erthyliad diogel a chyfreithiol yn hawliau dynol o dan y Cenhedloedd Unedig.

**Cred y CCB:**

1. Yn ystod y cyfnod hwn o anghydfodau gwleidyddol pan fo grwpiau- gwrth-ddewis wedi gwthio deddfwriaeth o amgylch y byd i wahardd bob erthyliad, hyd yn oed mewn achosion o dreisio neu losgach, mae'n hanfodol bod Undeb y Myfyrwyr yn cymryd safiad o blaid dewis cydraddol yn unol â'u hethos o gydraddoldeb.
2. Mae'n bryd i gydnabod yn swyddogol bod yr hawl i gadw neu terfynu beichiogrwydd yn hawl ddynol sylfaenol ac mae cydnabod hyn yn ddim mwy o atal rhyddid barn nag ydi cydnabod cydraddoldeb rhwng grwpiau ethnig er gwaetha'r ffaith bod llawer yn dadlau yn ei erbyn - nid yw'n mynd yn erbyn rhyddid barn i gymryd safiad o gydraddoldeb.
3. Dylid bod gwybodaeth mwy hygyrch drwy Undeb y Myfyrwyr ynglŷn â beichiogrwydd ac erthylu sydd yn gyfoes, diduedd, yn feddygol gywir ac yn defnyddio cyfeiriadaeth academaidd.

4. Dylai unrhyw wybodaeth anghywir a gaiff ei ledaenu ynglŷn ag iechyd atgenhedlu neu unrhyw weithgareddau sydd wedi ei drefnu i fynd yn erbyn polisïau Undeb y Myfyrwyr gan gymdeithasau sydd wedi eu hymlynu at Undeb y Myfyrwyr gael eu hymchwilio a chamau eu cymryd fel nad yw hyn yn digwydd eto.
5. Mae safiad o blaid dewis yn sicrhau iechyd meddwl a lles unrhyw berson sydd yn feichiog, gyda'r potensial i fod yn feichiog neu gyda'r potensial i feichiogi rhywun arall dim bwys pe byddent hwy yn bersonol yn cadw neu yn terfynu'r beichiogrwydd gan fod y safiad hwn yn cefnogi hawl y person beichiog i ddewis.

6. Gan gadw Amcan 2 y 'Cynllun Cydraddoldeb Strategol Prifysgol Caerdydd, 2016-2020,' mewn golwg, mae angen ystyried bod angen amgylchedd o blaid dewis ar lawer o fyfyrwyr er mwyn i addysg fod yn hygyrch ac yn gynhwysol. Mae/bydd llawer o fyfyrwyr yn/wedi cael erthyliad er mwyn cyflawni eu hamcanion i gyrraedd a chwblhau astudiaethau yma ym Mhrifysgol Caerdydd. Efallai bod rhai wedi ystyried gwneud, wedi penderfynu parhau a'r beichiogrwydd ac wedi bod yn llewyrchus yn ein Prifysgol. Un ffordd neu'r llall mae'r penderfyniadau hyn yn hynod o bersonol ac felly mae cefnogi hawliau myfyrwyr i ddewisiadau atgenhedlu yn darparu amgylchedd llawer mwy cynhwysol.
7. Gan fod "Beichiogrwydd" yn nodwedd sy'n cael ei amddiffyn (o dan Deddf Cydraddoldeb 2010), ni ddylid cymryd ymreolaeth corfforol sydd ar gael i bobl eraill oddi wrth pobl beichiog gan ei fod yn wahaniaethu, felly dylai safiad Undeb y Myfyrwyr adlewyrchu hyn.
8. Yn fwy aml na pheidio mae beichiogrwydd ac erthylu yn effeithio merched, ac mae peidio ag amddiffyn pobl rhag arwahanu yn ymwneud a beichiogrwydd ac erthylu yn fisogynistaidd. Byddai unrhyw ffurf o rhywiaeth yn gwrthddweud gwerthoedd craidd Undeb y Myfyrwyr o fod yn gynhwysol a chydraddol fel a ddatgenir yn nogfen "Ein Strategaeth 2018-2021" UMPC.
9. Pan fo dynion traws a AFAB* ddi-deuaidd yn profi problemau yn gysylltiedig â beichiogrwydd ac erthylu, gall hwn fod yn gyfnod enwedig o fregus, ac felly nid yw peidio ag eu hamddiffyn hwy yn cyd-fynd a pholisïau a chredoau yn ymwneud chynhwysiant traws. Mae cynhwysiant traws yn bwysig i Brifysgol Caerdydd fel a ddatgenir ym Mholisi Traws Prifysgol Caerdydd (a gyhoeddwyd yn 2018).

[*Wedi eu dynodi yn fenyw ar eu genedigaeth]

**Mae'r CCB yn penderfynu:**

1. Bydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn cyhoeddi yn gyhoeddus eu safiad o blaid dewis ac yn datgan yn glir ar dudalen gwe "Cefnogaeth Beichiogrwydd" UMPC ac unrhyw dudalennau gwe perthnasol eraill megis yn nhudalen gwe "Polisi".
2. Newid terminoleg perthnasol i feichiogrwydd ac erthylu drwy gydol Undeb y Myfyrwyr er mwyn ei wneud yn ddiduedd ac yn feddygol gywir. Er enghraifft, ar dudalen gwe "Cefnogaeth Beichiogrwydd" UMPC cyfeirio i "ffoetws" ar 13-wythnos yn hytrach na "babi".
3. Ychwanegu dolenni at wybodaeth di-duedd, feddygol gywir, wedi ei gyfeirnodi yn academaidd a chyfoes yn ymwneud â beichiogrwydd ac erthylu ar wefan UMPC.
4. Gwybodaeth gyfoes ar feichiogrwydd, erthylu a lle i gael cymorth meddygol ar gefnau drysau toiledau yr Undeb i sicrhau bod myfyrwyr mewn perthynas dreisgar hefyd yn gallu cyrchu gwybodaeth.
5. Bydd IL Lles ac Ymgyrchoedd yn gyfrifol dros sicrhau bod ymgyrchoedd a strategaethau Undeb y Myfyrwyr yn cefnogi safiad o blaid dewis i ddarparu amgylchedd gyfartal, diogel a chynhwysol i fyfyrwyr.

**Cardiff University Students' Union**
**Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd**

6. Bydd IL Lles ac Ymgyrchoedd, gan gydweithio â swyddogion Iechyd Meddwl, Merched a LGBT+, yn creu ymgyrch ymwybyddiaeth o blaid dewis sy'n pwysleisio pwysigrwydd cyrchu erthyliad diogel a chyfreithlon gan ddefnyddio gwybodaeth wedi ei gefnogi gan ystadegau ac neu gwybodaeth feddygol.
7. Bydd IL Cymdeithas a Gwirfoddoli yn gyfrifol am sicrhau nad yw cymdeithasau sydd wedi eu hymlynu at Undeb y Myfyrwyr yn lledaenu gwybodaeth anghywir am erthylu a beichiogrwydd nac yn ymgymryd mewn gweithgareddau yn erbyn polisi yr Undeb.
8. Dylai Undeb y Myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd gydweithio i sicrhau bod myfyrwyr yn deall eu hawliau i ymreolaeth corfforol ac erthyliad.

**Cynigydd:** Isadora Sinha
**Eiliwyd gan:** Emily Millward

Adnoddau


1. Cardiff University Students' Union (2018). "Our Strategy 2018-2021 by Cardiff Students" - Issuu. [ONLINE] Available at: https://issuu.com/cardiffstudents/docs/strategic_plan_-_a3_lowres. [Accessed 09 November 2019].
2. Cardiff University Students' Unions' Pregnancy Support webpage: https://www.cardiffstudents.com/advice/health-and-wellbeing/pregnancy/ [Accessed 9 Nov. 2019].
3. Prifysgol Caerdydd. 2019. Cardiff University Trans Policy. [ONLINE] Available at: https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0004/966532/trans-policy-2018-en.pdf. [Accessed 9 November 2019].
4. Embryo-ethics, Barts and The London School of Medicine and Dentistry (2019). "English law – foetus". [online] Available at: https://embryo-ethics.smd.qmul.ac.uk/tutorials/embryo-and-the-law/english-law-foetus/ [Accessed 9 Nov. 2019].
5. Equality Act 2010 - UK Public General Acts, 2010 c. 15, Part 2, Chapter 1, Section 4. http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/4 [Accessed 9 Nov. 2019].
6. Herd, P., Higgins, J., Sicinski, K. and Merkurieva, I. (2016). The Implications of Unintended Pregnancies for Mental Health in Later Life. [online] NCBI. Available at: https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC4815713/ [Accessed 9 Nov. 2019].
7. Klossner, N. Jayne, Introductory Maternity Nursing (2005). "The fetal stage is from the beginning of the 9th week after fertilization and continues until birth".
8. Morgan, C. and Preece, A. (2016). "Cardiff University Strategic Equality Plan 2016 – 2020".
9. The UN Human Rights Committee's General Comment 36 on the Right to Life and the Right to Abortion. http://opiniojuris.org/2019/03/06/the-un-human-rights-committees-general-comment-36-on-the-right-to-life-and-the-right-to-abortion/ [Accessed 9 Nov. 2019].

## EITEM DEG

(Dydd Llun 2 Rhagfur) bydd Undeb y Myfyrwyr yn agor enwebiadau ar gyfer Etholiadau'r Gwanwyn. Bydd bob rôl swyddog sabothol a swyddog ymgyrch ar gyfer 2020/2021 yn cael eu penodi yn yr etholiadau hyn. Os hoffech gael mwy o wybodaeth cymrwch olwg ar cardiffstudents.com/elections neu e-bostiwch elections@caerdydd.ac.uk